Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# COVID-19

## Cymorth Ariannol i Unigolion



# CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD

2. COLLI INCWM

3. TAI

4. CYMORTH ARIANNOL

5. COSTAU BYW

6. IECHYD A LLES

7. CYSYLLTIADAU

**Dyma ganllaw byr i'r cymorth ariannol a allai fod ar gael i'ch helpu yn awr.**

**Rydym yn deall y gall achosion Coronafeirws achosi pryder arbennig os ydych yn cael trafferth talu eich biliau a/neu eich rhent, ond mae help a chyngor ar gael i chi.**

# 1

# CYFLWYNIAD



# 2 COLLI INCWM

## Cymorth gan Lywodraeth y DU

### Credyd Cynhwysol

P'un ai a ydych chi'n hunangyflogedig, wedi colli eich swydd yn ddiweddar, yn gweithio llai o oriau neu ar gontract dim oriau, neu'n cymryd absenoldeb di-dâl i ofalu am eich plentyn/plant o ganlyniad i gau ysgol, efallai y byddwch chi'n gymwys ar gyfer Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau, a all gynnwys cymorth i dalu eich rhent. Gallwch hawlio ar-lein yn: **www.gov.uk/apply-universal-credit** I'r rhai na allant ddefnyddio gwasanaethau digidol, mae modd gwneud ceisiadau dros y ffôn:

Llinell Gymorth Credyd Cynhwysol
**0800 328 5644**
Cymraeg **0800 328 1744**

Os ydych chi angen help i wneud cais am Gredyd Cynhwysol gall y Ganolfan Cyngor ar Bopeth eich helpu. Ffoniwch **08000 241 220** am ddim neu ewch i **www.citizensadvice.org.uk/helptoclaim**

### Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Newydd

Os ydych chi'n sâl neu'n hunanynysu efallai y gallwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Newydd, naill ai ar ei ben ei hun neu ar yr un pryd â'r Credyd Cynhwysol. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am yr LCCh Newydd yn **www.gov.uk/guidance/new-style-employment-and-support-allowance.cy**

Rhif ffôn: **0800 328 5644** (opsiwn 3)
Ffôn testun: **0800 328 1344** (opsiwn 3)
Rhif ffôn yn y Gymraeg: **0800 328 1744**

### Lwfans Ceisio Gwaith Newydd

Efallai y byddwch yn gymwys i gael Lwfans Ceisio Gwaith Newydd i'ch helpu pan fyddwch yn chwilio am waith, naill ai ar ei ben ei hun neu ar yr un pryd â'r Credyd Cynhwysol. Os ydych chi'n ddi-waith neu'n gweithio llai na 16 awr yr wythnos efallai y gallwch gael Lwfans Ceisio Gwaith Newydd.

Rhif ffôn: **0800 055 6688**
Ffôn testun: **0800 023 4888**
Rhif ffôn yn y Gymraeg: **0800 012 1888**

### Taliad Annibyniaeth Personol

Gall Taliad Annibyniaeth Personol eich helpu gyda rhai o'r costau ychwanegol os oes gennych gyflwr iechyd hirdymor neu anabledd. I gael rhagor o wybodaeth am y Taliad Annibyniaeth Personol, ewch i **www.gov.uk/pip** neu gallwch wneud cais drwy ffonio am ddim ar **0800 917 2222**. Mae pob asesiad wyneb yn wyneb ar gyfer budd-daliadau iechyd ac anabledd wedi cael eu hatal dros dro, ond gallwch ddal i wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol.

### Tâl Salwch Statudol

Os ydych chi'n gyflogedig ac yn sâl neu'n hunanynysu efallai y byddwch chi'n gymwys i hawlio Tâl Salwch Statudol (SSP), a fydd yn eich helpu gyda'ch costau byw, neu i dalu eich rhent a'ch biliau. Os ydych chi'n gyflogedig ond bod eich enillion yn rhy isel i hawlio SSP, efallai y byddwch chi'n gallu hawlio Credyd Cynhwysol i'ch helpu gyda'ch costau byw ac i fforddio talu eich rhent a'ch biliau. Gallech fod yn gymwys am Dâl Salwch Statudol os oes angen ichi hunanynysu oherwydd ichi gael eich hysbysu y buoch mewn cysylltiad â rhywun oedd â'r coronafeirws, ac nad ydych yn gallu gweithio oherwydd hynny. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am y Tâl Salwch Statudol yn **www.gov.uk/statutory-sick-pay/eligibility**

### Y Cynllun Cadw Swyddi (Gweithwyr ar Ffyrlo)

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **www.gov.uk/guidance/check-if-you-could-be-covered-by-the-coronavirus-job-retention-scheme.cy**

Os bydd eich cyflog yn cael ei leihau o ganlyniad i'r newidiadau hyn, a'ch bod yn cael trafferth talu eich costau byw a thalu'ch rhent a/neu'ch biliau, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth drwy'r Credyd Cynhwysol.

### Cynllun hunangyflogedig

Nid oes angen i chi wneud cais am y cynllun hwn eich hun, bydd CThEM yn cysylltu â chi os ydych chi'n gymwys. Unwaith y bydd CThEM wedi cysylltu â chi, dim ond drwy GOV.UK y byddwch yn cael gafael ar y cynllun hwn. Bydd CThEM yn gwneud y taliad yn awtomatig ond mae'n bwysig eich bod wedi cyflwyno eich ffurflen dreth i CThEM ar gyfer 2018-2019 erbyn 23 Ebrill 2020.

Gellir cael rhagor o wybodaeth yn **www.gov.uk/guidance/claim-a-grant-through-the-coronavirus-covid-19-self-employment-income-support-scheme.cy**




P'un ai a ydych chi'n denant yn y sector cymdeithasol neu'r sector preifat, mae'n bwysig eich bod yn siarad â'ch landlord cyn gynted â phosibl os ydych chi'n meddwl y byddwch yn cael trafferth talu eich rhent a'ch biliau, gan y gallent eich helpu.

Gallech hefyd fod â hawl i'r canlynol i'ch helpu gyda'ch costau tai:

**Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai**
(Mae hyn yn berthnasol i denantiaid yn y sector cymdeithasol a'r sector preifat)


Gall y rhain roi arian ychwanegol i chi pan fydd eich awdurdod lleol yn penderfynu bod angen help ychwanegol arnoch i dalu'ch costau tai ar ben y cymorth budd-daliadau rydych eisoes yn ei gael drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Er mwyn cael Taliad Disgresiwn at Gostau Tai, bydd angen i chi naill ai fod yn cael yr hen fudd-dal tai neu'r elfen cyfraniad tai drwy'r Credyd Cynhwysol.

I gael Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai cysylltwch â'ch awdurdod lleol.

**Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**
Os yw eich cartref ar incwm isel, gallech gael cymorth tuag at rywfaint o'ch bil Treth Gyngor neu'r bil i gyd drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.llyw.cymru/disgownt-gostyngiad-treth-gyngor-taflen-wybodaeth**



# 4 CYMORTH ARIANNOL

**Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru**
Cronfa olaf un i gefnogi pobl sy'n profi caledi eithafol.

**Hyblygrwydd i ymdopi ag effaith y coronafeirws**
I roi mwy o gymorth i'r aelwydydd hynny sy'n wynebu caledi ychwanegol sylweddol yn sgil yr argyfwng coronafeirws, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bersonél Canolfan Wasanaeth y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) fod yn fwy hyblyg ac arfer disgresiwn o ran nifer y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng (EAP) y gall fod ei angen ar gleientiaid yn ystod y cyfnod hwn, a pha mor aml.

Gallwch wneud cais ar-lein am Daliad Cymorth mewn Argyfwng yn **www.llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf/sut-i-wneud-cais** neu drwy ffonio am ddim ar **0800 859 5924**.

**Taliad Cymorth mewn Argyfwng**
Mae Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn grant i helpu gyda chostau hanfodol ar ôl argyfwng neu os yw hawliwr wedi profi trychineb megis llifogydd neu dân yn y cartref, neu galedi ariannol difrifol am resymau sy'n cynnwys oedi gyda thalu budd-daliadau. Bwriad y taliad yw helpu i dalu costau bwyd, nwy a thrydan, dillad a theithio brys

Mae angen i'r ceisiadau hyn gael eu cefnogi gan 'bartner cymeradwy', er enghraifft eich awdurdod lleol neu gymdeithas dai.



# 5 COSTAU BYW

**Dŵr**
Os ydych chi'n cael trafferth talu eich bil dŵr, dylech gysylltu â'ch cyflenwr ar unwaith. Os mai Dŵr Cymru yw eich cyflenwr, mae wedi amlinellu'r cymorth y gall ei ddarparu, sy'n cynnwys cynlluniau talu a gostyngiadau yn y gyfradd ddŵr. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn **www.dwrcymru.com/cy-GB/My-Account/Help-Paying-My-Water-Bill.aspx**

**Nwy a thrydan**
Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno ar fesurau gyda'r diwydiant ynni i gefnogi pobl drwy'r pandemig coronafeirws. Bydd unrhyw gwsmer ynni sydd angen cymorth ariannol hefyd yn cael ei gefnogi gan ei gyflenwr, a allai gynnwys ad-dalu dyledion ac ailasesu taliadau bil, eu lleihau neu eu rhewi yn ôl yr angen, tra bydd datgysylltu mesuryddion credyd yn cael ei atal yn llwyr.

**Band eang a ffonau symudol**
Os ydych chi'n poeni am dalu eich bil band eang neu ffôn symudol, dylech gysylltu â'ch cyflenwr ar unwaith, oherwydd efallai y bydd yn gallu cynnig cynllun talu neu gymorth arall i'ch helpu i gadw cysylltiad.

**Banciau, cardiau credyd a benthyciadau**
Mae llawer o fanciau a chwmnïau cardiau credyd yn cynnig gwyliau talu, mwy o gyfleusterau gorddrafft a chyfraddau llog isel i helpu pobl drwy'r pandemig coronafeirws. Os ydych chi'n poeni am dalu'ch taliadau cerdyn banc neu gerdyn credyd, dylech gysylltu â'ch darparwr gwasanaethau ariannol ar unwaith, oherwydd efallai y bydd yn gallu rhoi cynllun talu neu gymorth arall ar waith i'ch helpu.

**Prydau Ysgol Am Ddim**
Os oes gan eich plentyn neu blant hawl i gael prydau ysgol am ddim, byddwch yn parhau i gael y cymorth hwn, er bod yr ysgolion ar gau. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru i gyd wedi gwneud trefniadau i sicrhau bod disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn parhau i'w cael.

Gall y trefniadau hyn amrywio yn ôl ardal yr awdurdod lleol rydych yn byw ynddi. Dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael gwybod sut mae'r cynllun yn cael ei weinyddu, os nad oes rhywun wedi cysylltu â chi'n barod. I ddod o hyd i fanylion cyswllt eich awdurdod lleol, ewch i **www.gov.uk/find-local-council**



# 6 IECHYD A LLES

Yn ystod yr amser heriol hwn, mae'n bwysig iawn ein bod yn gofalu amdanom ein hunain ac eraill.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu gwefan sy'n rhoi cyngor ymarferol ar sut y gallwch chi gadw'n ddiogel a diogelu pobl eraill yn eich cymuned. Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.llyw.cymru/iach-a-diogel**

**Byw heb Ofn**
Mae Byw heb Ofn yn rhoi cyngor defnyddiol, cyfrinachol sy'n hawdd cael gafael arno ar amrywiaeth o faterion a all fod yn berthnasol i'ch sefyllfa. Mae ar agor 24/7, yn rhad ac am ddim ac ni fydd yn ymddangos ar filiau ffôn.

Mae'r llinell gymorth yn rhoi help a chymorth i unrhyw un sy'n profi neu'n adnabod rhywun sy'n profi cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae pedair ffordd o gysylltu:

Dros y ffôn: **0808 80 10 800**
Gwasanaeth testun: **07860 077333**
E-bost: **info@livefearfreehelpline.wales**
Sgwrs fyw: **www.llyw.cymru/byw-heb-ofn**

Mae rhagor o wybodaeth am aros yn iach gartref ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru: **www.icc.gig.cymru/pynciau/coronafeirws/aros-yn-iach-gartref**

**Gymorth C.A.L.L.**
Gall trafod pryderon a phroblemau wneud pethau'n haws ac mae yna wasanaethau ar gael i'ch cefnogi. Llinell gymorth bwrpasol ar gyfer iechyd meddwl yng Nghymru yw Llinell Gymorth C.A.L.L. sy'n cynnig gwasanaeth gwrando a chymorth emosiynol cyfrinachol. Bydd hefyd yn helpu i'ch cysylltu â chymorth sydd ar gael yn eich ardal chi, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennol.

Ffoniwch **0800 132 737** neu anfonwch y gair 'help' i **81066**. Dyma wefan C.A.L.L.: **www.callhelpline.org.uk**



# 7 CYSYLLTIADAU

**Cyngor ar Bopeth Cymru**
Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cynnig cyngor cyfrinachol am ddim ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys arian, dyledion a budd-daliadau.

I siarad â chynghorydd, ffoniwch **03444 77 20 20** (9am tan 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener) neu i gael gwybodaeth a/neu siarad â chynghorydd ar-lein, ewch i **www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/about-us/contact-us/contact-us/contact-us**

Os ydych chi'n hunanynysu ac nad oes gennych ffrindiau neu gymdogion sy'n gallu helpu, cysylltwch â'ch canolfan wirfoddoli leol (Cyngor Gwirfoddol Sirol) am help a chyngor. I gael mwy o wybodaeth, ewch i **www.thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu**

**Cyngor Age Cymru**
Mae Cyngor Age Cymru yn cynnig gwasanaeth cynghori arbenigol di-dâl, cyfrinachol, diduedd a dwyieithog i bobl dros 50 oed yng Nghymru. Gall helpu pobl hŷn, eu teuluoedd, eu ffrindiau, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i gael gwybodaeth a chyngor ar faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn.

I gael gwybod mwy, ffoniwch **08000 223 444** rhwng 9:30am a 4:30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener neu e-bostiwch **advice@agecymru.org.uk**

**Care and Repair**
Mae Care and Repair yn darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau ymarferol sy'n helpu pobl hŷn yng Nghymru i aros yn ddiogel, yn gynnes ac yn iach gartref. Maent yn gosod cymhorthion ac addasiadau anabledd, yn darparu gwasanaethau cynnal a chadw cartrefi, yn helpu i sicrhau'r incwm mwyaf a grantiau mynediad, ac yn gwneud cartrefi'n ddiogel i ddychwelyd o'r ysbyty.

I gael gwybod rhagor, ffoniwch **0300 111 3333** neu ewch i **www.careandrepair.org.uk/cy**

Hyd yn oed os ydych chi'n meddwl nad ydych fel arfer yn gymwys am gymorth ariannol, gallech bellach fod yn gymwys i gael rhywfaint o help gyda chostau byw o ddydd i ddydd.

**Cyngor Iechyd Meddwl ac Arian**
Mae Hafal, fel rhan o Mental Health UK, wedi lansio'r gwasanaeth Cyngor Iechyd Meddwl ac Arian. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl sydd wedi eu heffeithio gan broblemau iechyd meddwl ac arian, gan gynnwys gofalwyr, teuluoedd, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol o fewn yr ardal.

Ceir rhagor o wybodaeth yma: **www.hafal.org/cy/adferiad/cyllid-ac-arian**